Ymhen 14 diwrnod o ffrwythloni'r wy, maent wedi datblygu digon i ni weld llygaid bach. Mae'r wyau sydd wedi troi'n wyn wedi marw.

Mae pryd mae'r wyau'n deor yn dibynnu ar dymheredd y dŵr. Mae ensym yn cael ei ryddhau yn y wyau er mwyn meddalu'r plisgyn ac mae hyn yn rhyddhau'r silod mân o'r wy.

Wedi'r silod mân ddeor, maen nhw'n byw ar faeth yn yr wy am 10 – 20 diwrnod. Maen nhw'n byw ar y cerrig ar wely'r afon er mwyn cuddio.

Mae'r silod mân yn datblygu a thyfu ac yn cael eu galw'n frithyllod brych. Maen nhw'n byw ar ben eu hunain. Dim ond 5% o wyau sy'n cyrraedd y cam yma.

Wedi'r silod mân amsugno'r wy mae nhw'n gallu bwydo'n annibynnol drwy fwyta plancton. Maen nhw'n ffarwelio â diogelwch gwely'r afon. Gwyliwch y silod mân yn ofalus – maen nhw'n dechrau sefydlu tiriogaethau ac yn dechrau datblygu patrymau cuddliw. Dyma pryd y byddant yn cael eu rhyddhau i'r gwyllt.

Mae'r wyau rhwng 2-5 mm mewn diamedr.



Cylch Bywyd Brithyll Brown

Allwch chi gysylltu'r lluniau gyda'r camau cywir?

Yr embryo - wyau

Deor

Silod Mân

Brithyllod Brych

Oedolyn